



Datganiad Polisi Caffael S4C

Dyddiad cyhoeddi: 28 Ionawr 2010

Diwygiwyd: Ionawr 2020

Cyhoeddwyd – Rhagfyr 2007
Adolygiad A – Tachwedd 2008
Adolygiad B – Ionawr 2010
Adolygiad C – Rhagfyr 2012
Adolygiad D – Hydref 2019
Adolygiad E – Ionawr 2020

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Bwrdd Unedol S4C wedi mabwysiadu Polisi Masnachu Teg er mwyn sicrhau bod y modd mae S4C yn ymwneud â'i chyflenwyr a rhan ddalwyr yn cyd-fynd â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol perthnasol bob amser, yn ogystal â'r egwyddorion masnachu teg a amlinellir yn y polisi hwnnw.
- 1.2 Mae gan S4C Strategaeth Gaffael sy'n amlinellu'r egwyddorion sy'n gysylltiedig â chaffael nwyddau a gwasanaethau yn S4C. Mae'r Strategaeth yn esbonio'r ffordd mae caffael yn cefnogi'r nodau ac amcanion corfforaethol cyffredinol ac awydd S4C i gynnal a datblygu'n effeithiol, prosesau caffael trefnus a chadarn.
- 1.3 Fel corff cyhoeddus, mae Bwrdd Unedol S4C yn rhwym i ddarpariaethau Rheoliadau Caffael Cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd a ddaeth i rym yn y DU gan Reoliadau Cytundebau Cyhoeddus 2015 (y 'Rheoliadau'). Gofynna'r Rheoliadau hyn i gyrff cytundebu gydymffurfio â rheoliadau sy'n ymwneud â'r ffordd y bydd gweithiau, nwyddau a gwasanaethau amrywiol yn cael eu caffael.
- 1.4 Mae rhai eithriadau i'r Rheoliadau gan gynnwys cytundebau ar gyfer prynu, datblygu, cynhyrchu neu gyd-gynhyrchu deunydd y bwriedir ei ddarlledu gan ddarlledwr neu gytundebau ar gyfer prynu amser darlledu. Fodd bynnag, mae Polisi Masnachu Teg Bwrdd Unedol S4C yn nodi bydd gweithgareddau comisiynu S4C yn cydymffurfio â gwerthoedd ac egwyddorion cyffredinol y Cyfamod ar Undeb Ewropeaidd gan gynnwys cydraddoldeb, triniaeth gyfartal a chymesuredd.
- 1.5 Mae Datganiad Polisi Caffael S4C yn amlinellu'r dulliau caffael mae S4C yn ei defnyddio wrth gyflawni ei Strategaeth.

2. Nodau Allweddol

- 2.1 Cynlluniwyd elfennau craidd Datganiad Polisi Caffael S4C er mwyn sicrhau bod:
 - 2.1.1 S4C yn cynnal ei nod allweddol o hyrwyddo rhagoriaeth;
 - 2.1.2 S4C yn cael gwasanaethau a chyflenwadau sy'n cynrychioli gwerth gorau gan sicrhau felly'r defnydd mwyaf effeithlon o arian cyhoeddus;
 - 2.1.3 S4C yn gweithredu arfer gorau, gan leihau'r baich gweinyddol;
 - 2.1.4 S4C yn hyrwyddo amrywiaeth ac osgoi gwastraff; a bod
 - 2.1.5 S4C yn hyrwyddo cystadleuaeth, lle'n briodol, er mwyn asesu'r farchnad yn barhaus
- 2.2 Mae dulliau caffael wedi eu dyfeisio a'u datblygu er mwyn sicrhau gwerth gorau drwy'r broses caffael fwyaf priodol a chost effeithiol. Mae'r dulliau sydd ar gael i S4C yn cynnwys trefniadau electroneg o gaffael, cardiau credyd a chytundebau.
- 2.3 Mae'r dulliau caffael a ddefnyddir gan S4C yn ddibynnol ar werth y cytundeb yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, bydd egwyddorion allweddol S4C o dryloywder, atebolrwydd, cydraddoldeb, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a phroffesiynoldeb yn cael eu defnyddio ym mhob achos.

3. Dulliau Caffael a Ddefnyddir gan S4C

- 3.1 Fel corff cyhoeddus, rhaid i S4C sicrhau bod unrhyw gytundeb yr ymgwymerir ag ef ar gyfer caffael nwyddau neu wasanaethau wedi ei cwblhau yn unol â gweithdrefnau prynu S4C.
- 3.2 Mae cytundebau caffael, datblygu, cynhyrchu neu gyd-gynhyrchu deunydd rhaglenni y bwriedir ei ddarlledu ar deledu neu ar wasanaeth clyw-weledol ar-alw wedi eu heithrio o'r prosesau canlynol.

Trothwy *	Proses Caffael
O dan £5,000	Rhaid sicrhau gwerth gorau trwy ymchwilio i'r farchnad am y nwyddau/gwasanaethau a gaffaelir/gytundebir. Rhaid i hyn gael ei gofnodi a'i gadw am gyfnod o 3 mlynedd.

Trothwy *	Proses Caffael
Rhwng £5,000 a £50,000 neu am bryniant unigryw o offer darlledu/TG gwerth hyd at £100,000	<p>Dylid sicrhau gwerth gorau trwy ymchwilio i'r farchnad am y nwyddau/gwasanaethau a gaffaelir/gytundebir.</p> <p>Rhaid cael dyfynbrisiau gan dri chyflenwr ag iddynt enw da o'r nwyddau/gwasanaethau. Pan yn edrych i brynu nwyddau neu wasanaethau lle bydd angen cymharu nifer o elfennau rhwng cyflenwyr gwahanol, defnyddio criteria asesu a chynnal cyfweiliadau, mae'n bosib y byddai'n fwy addas i gynnal proses dendr neu proses mwy ffurfiol gan ddefnyddio dogfen 'Cais am Bris'.</p> <p>Rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o bob un o'r tri dyfynbris mewn lle hylaw er mwyn eu cyflwyno i archwilwyr ar gais am ba bynnag gyfnod sydd hwyaf (a) 3 mlynedd neu (b) hyd y cytundeb.</p> <p>Os caiff hysbyseb cyhoeddus ei greu ar gyfer cytundeb (h.y. os yw'r cyfle i geisio am y cytundeb yn cael ei gyhoeddi yn y parth cyhoeddus neu yn cael ei hysbysu i ddarpar gyflenwyr yn gyffredinol neu yn cael ei hysbysu i ddsbarth agored o gyflenwyr) a bod gwerth y cytundeb dros £25,000, rhaid i'r cytundeb hwnnw gael ei hysbysebu ar Sell2Wales, bydd hyn yn sicrhau y cyhoeddir y cytundeb ar adnodd "Contracts Finder" Llywodraeth y DU yn unol â gofynion cyfreithiol.</p> <p>Os ydych yn gofyn i nifer penodedig o gyflenwyr ddarparu pris am gytundeb, ni ystyrir hyn yn hysbyseb agored o'r cytundeb hwnnw ac ni fydd rheidrwydd i'w hysbysebu ar Sell2Wales.</p>

Trothwy *	Proses Caffael
Rhwng £50,000 a £189,330 neu am bryniant unigryw o offer darlledu/TG rhwng £100,000 a £189,330	<p>I'w tendro'n gystadleuol bob 3 blynedd o leiaf. Gellir ymestyn y cyfnod yma gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw. Gall tendrau fod yn agored (wedi eu hysbysebu), gwahoddedig neu unigol.</p> <p>Sicrhau gwerth gorau am arian i S4Cac i gydymffurfio ag egwyddorion Ewropeaidd o dryloywder, triniaeth gyfartal a chymesuredd.</p> <p><u>Tendr agored</u> Mae'r broses hon yn cynnwys hysbyseb agored i'r farchnad ac yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw barti a phob parti sydd â diddordeb mewn darparu'r nwyddau/gwasanaethau i S4C i ymateb i'r hysbysed drwy</p>

gyflwyno tendr llawn.

Bydd angen gwerthuso pob tendr a geir yn deg ac yn gyfartal. O dan reolau caffael cyhoeddus 2015, mae yna waharddiad ar ddefnydd o holiaduron cyn-gymhwysu mewn tendrau ar gyfer cytundebau gwerth llai na £181,302.

Mae'n bosib gofyn cwestiynau sy'n asesu addasrwydd fel rhan o'r broses un cam cyhyd â bod y cwestiynau yn (i) berthnasol i destun y cytundeb a (ii) yn gymesur. Dehonglir "cwestiynau sy'n asesu addasrwydd" yn gwestiynau sydd yn angenrheidiol er mwyn asesu a yw darpar ddarparwr yn cyrraedd gofynion S4C neu'r trothwy perthnasol ar gyfer safonau o addasrwydd, gallu, statws cyfreithiol neu sefyllfa gyllidebol.

Yn dilyn penderfyniad, rhaid cysylltu â phob tendrwr a gyflwynodd ymateb tendro ar yr un diwrnod i roi gwybod iddynt p'un a oedd eu tendr yn llwyddiannus ai peidio. Dylid rhoi adborth i dendrwr aflwyddiannus. Cyhoeddir enw'r tendrwr llwyddiannus ar Sell2Wales, gwefan S4C, a lle bo'n briodol, y wasg leol.

Dylid ystyried tendrau sengl neu drwy wahoddiad fel eithriad i'r gweithdrefnau arferol, a dylid ond eu defnyddio o dan amgylchiadau eithriadol. Pan yn gweithredu tendr cyfyngedig, dylid gwahodd o leiaf tri tendrwr i gymryd rhan yn y broses.

Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig y Prif Weithredwr os oes bwriad i ddefnyddio un o'r ddau broses canlynol.

Dylid sicrhau bod y rhesymau dros beidio dilyn proses tendr agored wedi eu cofnodi yn ysgrifenedig, gan gynnwys (lle'n berthnasol) y rhesymau dros y canfyddiad na fyddai'r cytundeb yn debygol o fod o ddiddordeb i gyflenwyr mewn Aelod-Wladwriaeth Ewropeaidd arall.

Mae'r broses hon yn cynnwys gwahodd un neu fwy o gyflenwyr i roi dyfynbris am y nwyddau/gwasanaethau.

Tendr trwy wahoddiad

Sicrhau gwerth gorau drwy ymchwilio i'r farchnad yn drwyadl a llunio rhestr sy'n cynnwys o leiaf tri cyflenwr posibl ac iddynt enw da sy'n gallu cyflenwi'r nwyddau/gwasanaethau sydd eu hangen (lle y bo hynny ar gael).

Bydd y gwahoddiad i dendro, y matrices sgorio cysylltiedig a'r cytundeb drafft yn cael eu drafftio cyn i'r gwahoddiadau i dendro gael eu danfon i'r cyflenwyr sydd ag enw da a nodwyd a chadw cofnod o bob unigolyn neu endid yr anfonir y gwahoddiadau i dendro atynt.

Rhaid i bob unigolyn neu endid yr anfonwyd gwahoddiad i dendro atynt ac sydd â diddordeb mewn darparu'r nwyddau/gwasanaethau i S4C gyflwyno tendr llawn i S4C yn unol â darpariaethau'r gwahoddiad i dendro.

Os nad yw cyflenwr a nodwyd yn ymateb i'r gwahoddiad i dendro, dylid

	<p>gofyn am reswm dros y diffyg ymateb a'i ddogfennu.</p> <p>Rhaid i bob tendr a ddaw i law gael eu hagor ar yr un pryd gan ddau berson a dylid logio pob tendr y'i derbynir. Dylid darllen a gwerthuso pob tendr yn unol â'r meini prawf tendro a nodwyd yn y gwahoddiad i dendro. Y panel gwerthuso i enwi'r tendrwr llwyddiannus.</p> <p>Yn dilyn cymeradwyaeth perthnasol, rhaid cysylltu â phob tendrwr a gyflwynodd ymateb tendro ar yr un diwrnod i roi gwybod iddynt p'un a oedd eu tendr yn llwyddiannus ai peidio. Darperir adborth i dendrwr aflwyddiannus.</p> <p>Cyhoeddir enw'r tendrwr llwyddiannus ar wefan S4C a, lle y bo'n briodol, yn y wasg leol.</p> <p><u><i>Tendr unigol</i></u> Rhaid cael cymeradwyaeth y Prif Weithredwr trwy lofnod ar Ffurflen Awdurdod Tendr/Cais am Bris Cyfyngedig. Rhaid i'r Ffurflen Awdurdod Tendr/Cais am Bris Cyfyngedig nodi'n glir y cyfiawnhad dros ddefnyddio'r broses dendro unigol gan ystyried un o'r amgylchiadau eithriadol a restrwyd cyn mynd i unrhyw wariant.</p> <p>Anfonir manyleb y gwasanaethau/nwyddau sydd eu hangen i'r unig gyflenwr a gofynnir am fanylion y pris a thelerau'r cytundeb gan yr unig gyflenwr.</p> <p>Rhaid sicrhau cymeradwyaeth priodol ar gyfer pris a thelerau'r cytundeb a sicrhau lofnod o'r cytundeb ysgrifenedig ar gyfer nwyddau/gwasanaethau o dan y telerau y cytunwyd arnynt.</p>
--	---

Trothwy *	Proses Caffael
Dros £189,330	<p>Gall fod yn ddarostyngedig i reolau caffael cyhoeddus llawn yr UE ("Rheolau Caffael yr UE").</p> <p>Bydd rhai achosion penodol o gaffael wedi'u heithrio o Reolau Caffael yr UE, ac efallai y bydd achosion eraill yn gofyn am gydymffurfiaeth rannol â Rheolau Caffael yr UE yn unig.</p> <p>Mae S4C yn defnyddio prosesau "Agored" neu "Cyfyngedig" Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ("OJEU") o dan y Rheolau.</p> <p><u><i>Gweithdrefn Agored OJEU</i></u> O dan y weithdrefn hon gosodir hysbyseb o fwriad S4C i osod cytundeb yn yr OJEU (gelwir hwn yr Hysbysiad o Gytundeb neu Contract Notice). Gosodir yr hysbyseb yn OJEU drwy ddefnyddio gwefan Sell2Wales er mwyn sicrhau bod yr hysbyseb ar gael ar wefan Sell2Wales a gwefan y llywodraeth - "Contracts Finder".</p> <p>48 awr ar ôl danfon yr hysbyseb at OJEU, gall S4C hefyd hysbysebu'r cytundeb yn y wasg leol, genedlaethol a masnach yn unol â'r amodau penodol sy'n effeithio ar gynnwys hysbysebion o'r fath.</p>

Bydd yr Hysbyseb o Gytundeb yn cynnwys y Gwahoddiad i Dendr (GID), y matrices gwerthuso a'r cytundeb drafft. Rhaid i i'r dyddiad ymateb ar gyfer tendr o'r fath fod o leiaf 35 diwrnod ar ôl anfon yr Hysbysiad o Gytundeb at OJEU.

Rhaid i S4C werthuso pob tendr a dderbynnir yn unol â'r meini prawf gwerthus penodol a'r pwysoliad a nodwyd yn yr Hysbysiad o Gytundeb a dogfennau tendr.

Ar ôl gwerthuso pob cytundeb a geir, rhaid i S4C ddewis tendr llwyddiannus ac anfon hysbysiad ysgrifenedig ("Hysbysiad Dyfarnu'r Penderfyniad") at bob tendrwr ar yr un diwrnod.

Ni all S4C a'r tendrwr llwyddiannus ymrwmo i gytundeb tan o leiaf 10 diwrnod clir ("cyfnod segur") ar ôl anfon Hysbysiad Dyfarnu'r Penderfyniad (ar yr amod y caiff yr hysbysiadau eu hanfon yn electronig). Rhaid i'r cyfnod o 10 diwrnod ddod i ben ar ddiwrnod gwaith.

Ar ôl diwedd y cyfnod segur ac ar yr amod nad oes unrhyw wrthwynebiadau, gall S4C ymrwmo i gytundeb gyda'r tendrwr llwyddiannus.

O fewn 48 diwrnod o ymrwmo i gytundeb gyda'r tendrwr llwyddiannus, rhaid i S4C anfon Hysbysiad Dyfarnu'r Cytundeb i OJEU. Bydd S4C yn cyflwyno'r hysbysiad i OJEU drwy ddefnyddio Sell2Wales a bydd hyn yn sicrhau cyhoeddiad yr hysbysiad ar Sell2Wales a Contracts Finder.

Yr amserlen ofynnol leiaf posibl ar gyfer cwblhau'r broses hon yw 45 diwrnod o anfon yr Hysbysiad o Gytundeb i OJEU i lofnodi'r cytundeb. Er hyn, mae rhwng tri a phum mis yn amserlen fwy realistig ar gyfer y broses hon o'r dechrau i'r diwedd.

Gweithdrefn Gyfyngedig OJEU

O dan y weithdrefn hon gosodir hysbyseb o fwriad S4C i osod y cytundeb yn OJEU gan yr Adran Gyfreithiol (gelwir hwn yn Hysbysiad o Gytundeb neu Contract Notice). Gosodir yr hysbyseb yn OJEU drwy ddefnyddio gwefan Sell2Wales er mwyn sicrhau bod yr hysbyseb ar gael ar wefan Sell2Wales a gwefan y llywodraeth - "Contracts Finder".

48 awr ar ôl danfon yr hysbyseb at OJEU, gall S4C hefyd hysbysebu'r cytundeb yn y wasg leol, genedlaethol a masnach yn unol â'r amodau penodol sy'n effeithio ar gynnwys hysbysebion o'r fath.

Bydd yr Hysbysiad o Gytundeb ac unrhyw hysbyseb arall ar gyfer y cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sydd â diddordeb yn y cytundeb anfon Holiadur Cyn- Gymhwyso (PQQ) wedi'i gwblhau i S4C erbyn dyddiad penodol. Caiff y PQQ ei lunio gan S4C yn seiliedig ar ofynion penodol y cytundeb (rhaid i'r rhain fod yn berthnasol i ofynion y gwasanaeth/nwyddau ac yn gymesur). Bydd y PQQ ar gael i ddarpar ymgeiswyr drwy wefannau Sell2Wales ac S4C. Rhaid sicrhau bod y Gwahoddiad i Dendr (GID), y matrices gwerthuso a'r contract drafft ar gael ar yr un pryd â'r PQQ pan gaiff yr Hysbysiad o Gytundeb ei chyhoeddi.

Bydd yr Hysbysiad o Gytundeb yn nodi'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno PQQ

wedi'i gwblhau. Ni all y terfyn amser hwn fod yn gynt na 30 diwrnod cyfan ar ôl dyddiad anfon yr Hysbysiad o Gytundeb at OJEU. Dylai'r terfyn amser ddod i ben ar ddiwrnod gwaith.

Ar ôl i'r terfyn amser ar gyfer cyfleu'r PQQ ddod i ben, rhaid gwerthuso pob PQQ yn unol â'r meini prawf dethol a nodwyd yn yr Hysbysiad o Gytundeb a'r nodiadau o arweiniad a roddwyd yn y PQQ. Mae PQQ safonol S4C (a'r nodiadau o arweiniad sydd wedi eu cynnwys ynddo sy'n ymwneud â'r broses dethol ac unrhyw ofynion sylfaenol) wedi ei selio ar ddogfennau safonol Swyddfa'r Cabinet. Ni ddylid newid y ddogfen safonol heb drafod unrhyw newidiadau efo'r Adran Gyfreithiol. Gall y penderfyniad i wyro o eiriad safonol Swyddfa'r Cabinet olygu bod angen darparu adroddiad i Swyddfa'r Cabinet.

Ar ôl gwerthuso'r PQQs, rhaid i S4C ddewis rhestr fer o ymgeiswyr i'w gwahodd i dendro. Dylid danfon llythyr at yr ymgeiswyr aflwyddiannus yn nodi na fydd disgwyl iddynt ymateb i'r GID llawn ac y bydd adborth pellach ar gael yn dilyn gwobrwo'r cytundeb.

Rhaid i'r GID nodi'r meini prawf gwerthuso a ddefnyddir gan S4C wrth werthuso pob tendr a'r pwysoliad a roddir i bob maen prawf a ddefnyddir. Rhaid iddo hefyd nodi unrhyw fethodoleg sgorio i'w ddefnyddio gan S4C (e.e. os yw cwestiwn i'w farcio 0-5, dylid nodi methodoleg S4C wrth wobrwyo pob un sgôr).

Ni all y terfyn amser ar gyfer derbyn tendrau fod yn gynt na 35 diwrnod cyfan ar ôl anfon y gwahoddiadau at yr ymgeiswyr ar y rhestr fer, ar yr amod bod y dogfennau tendro ar gael yn electronig i dendrwy. Dylai'r terfyn amser ddod i ben ar ddiwrnod gwaith.

Ar ôl i'r tendrau llawn ddod i law, rhaid i S4C werthuso pob tendr a geir yn unol â'r meini prawf gwerthuso a'r pwysoliad a nodwyd yn y GID a dewis y tendrwr llwyddiannus.

Rhaid danfon Hysbysiad Dyfarnu'r Penderfyniad at bob un a gyflwynodd PQQ ac a oedd yn aflwyddiannus.

Ni all S4C a'r tendrwr llwyddiannus arwyddo'r cytundeb tan o leiaf 10 diwrnod ("cyfnod segur") ar ôl anfon Hysbysiad Dyfarnu'r Penderfyniad (ar yr amod y caiff yr hysbysiadau eu hanfon yn electronig). Dylai'r terfyn amser ddod i ben ar ddiwrnod gwaith.

Ar ôl diwedd y cyfnod segur ac ar yr amod nad oes unrhyw wrthwynebiadau, gall S4C ymrwmo i gytundeb gyda'r tendrwr llwyddiannus.

O fewn 48 diwrnod o ymrwmo i gytundeb gyda'r tendrwr llwyddiannus, rhaid i S4C anfon Hysbysiad Dyfarnu'r Cytundeb i OJEU. Bydd S4C yn cyflwyno'r hysbysiad i OJEU drwy ddefnyddio Sell2Wales a bydd hyn yn sicrhau cyhoeddiad yr hysbysiad ar Sell2Wales a Contracts Finder.

Yr amserlen ofynnol leiaf posibl ar gyfer cwblhau'r broses hon yw 72 diwrnod o anfon yr Hysbysiad o Gytundeb i OJEU a llofnodi'r Cytundeb. Er hyn, mae rhwng pedwar a chwe mis yn amserlen fwy realistig ar gyfer y broses hon o'r dechrau i'r diwedd.

* Y ffigwr trothwy yw'r gwerth cyfanswm dros gyfnod y cytundeb.¹

- 3.4 Wrth gomisiynu neu drwyddedu deunydd rhaglenni, mae perchenogaeth hawliau cynnwys creadigol yn ystyriaeth allweddol. Gan gadw hyn mewn cof, mae Polisi Masnachu Teg Bwrdd Unedol S4C yn nodi bod gweithgareddau comisiynu S4C yn cefnogi egwyddorion cyffredinol masnachu teg ac yn cydymffurfio â gwerthoedd ac egwyddorion cyffredinol y Cyfamod ar Undeb Ewropeaidd ac egwyddorion allweddol S4C.
- 3.5 Mae'r egwyddorion sy'n diffinio perthynas S4C gyda'r sector cynhyrchu annibynnol wedi eu hamlinellu yng nghyd-destun y Cod Ymarfer, y Telerau Masnach, y Cynllun Corfforaethol ac amcanion y Strategaeth Cynnwys.
- 3.6 Am restr a manylion am dendrau cynnwys comisiynu cyfeirier at wefan Cynhyrchu S4C <http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/>

4. Adolygu a Monitro

- 4.1 Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr S4C yn gyfrifol am weithredu'r Polisi hwn.
- 4.2 Caiff y Polisi ei gymeradwyo gan Fwrdd Unedol S4C. Bydd Bwrdd Unedol S4C yn monitro gweithrediad y Polisi hwn.
- 4.3 Bydd gweithredu'r Polisi hwn yn cael ei oruchwylio gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr. Bydd y Bwrdd yn cynnal adolygiad blynyddol o'r gweithgaredd caffael.
- 4.4 Bydd S4C yn adolygu'r Polisi o dro i dro, a phob tair blynedd o leiaf.

¹ Mae Trothwy yr UE yn newid yn aml, ac mae'r ffigwr yma'n weithredol o 1 Ionawr 2020 yn unol â Rheoliadau Cytundebau Cyhoeddus 2015